# Crynodeb o Strategaeth a Chynllun Gweithredu

## Bro Oed-Gyfeillgar 2025-28



**Mae cymunedau oed-gyfeillgar yn fudiad a grëwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, gyda'r nod o gefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda.** Mae'r cymunedau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod oedolion hŷn yn cael eu cynnwys a'u trin yn deg. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi wyth maes allweddol i weithio arnynt a fydd yn helpu i wella bywydau oedolion hŷn, sef: trafnidiaeth, tai, mannau awyr agored ac adeiladau, cyfranogiad cymdeithasol, parch a chynhwysiant cymdeithasol, cyfranogiad dinesig a chyflogaeth, cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd, a chyfathrebu a gwybodaeth.





**Cymru oedd y wlad gyntaf i greu rôl Comisiynydd Pobl Hŷn ac ymrwymo i fod yn wlad oed-gyfeillgar.** Ym mis Hydref 2023, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ymunodd Bro Morgannwg â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd i fod y bedwaredd ardal yng Nghymru i gyflawni Statws Oed-gyfeillgar.

Mae gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio - amcangyfrifodd cyfrifiad 2021 fod 56,336 (43%) o boblogaeth y Fro yn 50+ oed.

**Rhwng 2029-2039 mae disgwyl i nifer y bobl 65+ oed sy'n byw yn y Fro gynyddu 22%, y cynnydd mwyaf o holl awdurdodau lleol Cymru**



**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg wedi ymrwymo i ddatblygu'r gwaith hwn** ac mae wedi creu Rhwydwaith Bro Oed-Gyfeillgar gan ddod â dros 400 o aelodau ynghyd. Gan weithio gyda gwahanol grwpiau ac oedolion hŷn a gwrando arnynt, datblygodd y Rhwydwaith Siarter Bro Oed-Gyfeillgar sy'n adlewyrchu anghenion a gobeithion pobl hŷn yn y Fro. Er mwyn adeiladu ar yr ymrwymiad, creodd y Rhwydwaith Strategaeth a Chynllun Gweithredu manwl ar gyfer y tair blynedd nesaf a gofynnodd i'r cyhoedd **"ai dyma'r camau gweithredu cywir i ganolbwyntio arnynt"?**



Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgynghori ar-lein ac all-lein i gael sylwadau ar gynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Fel rhan o'r gweithgaredd hwn, cwblhawyd 136 o ymatebion i'r arolwg, ac roedd **85% o'r ymatebwyr naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno'** mai'r camau gweithredu hyn oedd y rhai cywir i ganolbwyntio arnynt.

Mae angen llawer iawn o gynllunio a gwella i fod yn gymuned oed-gyfeillgar ac rydym yn gwybod nad yw hyn yn rhywbeth a fydd yn digwydd dros nos. Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Oed-gyfeillgar y Fro wedi'i seilio ar y canllaw a ddarparwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ac mae'n helpu i nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd yn awr ac yn y dyfodol.



Yn dilyn yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad, cytunwyd ar 20 o gamau gweithredu allweddol fel sylfaen ar gyfer Cynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar 2025-2028. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'r holl bartneriaid i symud yn agosach at yr 8 ymrwymiad yn y Siarter Bro Oed-Gyfeillgar. I gael rhagor o fanylion a dysgu sut y byddwn monitro ac yn adrodd am gynnydd, darllenwch Strategaeth a Chynllun Gweithredu Oed-gyfeillgar 2025-2028 neu ewch i'n gwefan www.valepsb.wales.

| Ymrwymiad | Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu canlynol: |
|---|---|
| Mae gan bobl ymdeimlad o bwrpas, maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau | • Ehangu a datblygu Rhwydwaith y Fro Oed-Gyfeillgar sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol grwpiau oedran, busnesau lleol a sefydliadau cymunedol.<br>• Annog cyfleoedd rhyng-genedlaethau i feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymhlith gwahanol grwpiau oedran.<br>• Hwyluso amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cymdeithasol i bobl hŷn i gysylltu a lleddfu unigrwydd ac ynysigrwydd. |
| Mae pobl yn wybodus am y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt trwy fathau gwahanol o gyfathrebu | • Ei gwneud hi'n haws cael mynediad i wybodaeth, cyngor a gwasanaethau lleol trwy lwybrau amrywiol, a hynny ar-lein ac all-lein.<br>• Grymuso mwy o bobl i gynyddu eu hyder a'u gallu i ddod o hyd i wybodaeth ar-lein lle maen nhw'n dymuno. |
| Mae gan bobl fynediad i fathau addas o drafnidiaeth ar draws y Fro | • Hyrwyddo gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus o safon gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol.<br>• Sicrhau bod llais ac anghenion pobl hŷn yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau trafnidiaeth lleol.<br>• Nodi a hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau i gynyddu hygyrchedd a hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. |
| Mae gan bobl gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywyd | • Darparu amrywiaeth o gyfleoedd ar-lein ac all-lein i bobl hŷn gael dweud eu dweud a llunio eu dyfodol.<br>• Hyrwyddo heneiddio cadarnhaol a mynd i'r afael ag oedraniaeth. |
| Mae pobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli a'u cadw | • Cefnogi pobl hŷn i gael mynediad i waith ac aros mewn gwaith lle maen nhw'n dymuno, a chynyddu cyfleoedd i weithwyr hŷn.<br>• Cefnogi pobl hŷn i gael mynediad i ddewisiadau gwirfoddoli hyblyg lle maen nhw'n dymuno, sydd o fudd i'w lles a'u cymuned leol. |
| Mae pobl yn cael eu cefnogi i gadw'n iach ac yn annibynnol trwy gael mynediad i wasanaethau priodol | • Gwella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal lleol.<br>• Datblygu cyfleoedd fforddiadwy a hygyrch am ddim sy'n cefnogi pobl i ddewis ffyrdd mwy actif ac iach o fyw.<br>• Bydd pobl â dementia yn cael eu cynorthwyo i fyw'n dda, gwneud y pethau y mae angen iddyn nhw eu gwneud a mwynhau yn eu cymunedau.<br>• Codi ymwybyddiaeth o sgamiau a cham-drin pobl hŷn a hyrwyddo ffyrdd o gael gafael ar gymorth a chefnogaeth. |
| Mae gan bobl fynediad i fannau awyr agored ac adeiladau â chyfleusterau addas | • Gwella mynediad i fannau awyr agored ac adeiladau cyhoeddus (gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus a phalmentydd) i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gyfforddus.<br>• Annog mwy o bobl i dreulio amser ym myd natur, gan gydnabod pwysigrwydd mannau awyr agored a'u heffaith gadarnhaol ar lesiant. |
| Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi | • Sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i amrywiaeth o dai addas sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau gan eu cefnogi i fyw'n annibynnol.<br>• Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi yn effeithiol. |